Telerau ac Amodau

Derbynnir ceisiadau o'r dyddiad agor ddydd Gwener 13eg Mawrth 2020 i'r dyddiad cau dydd Llun 13eg Ebrill 2020 am 12.00pm.

Cyhoeddir yr hysbyseb(ion) buddugol ar 18 Ebrill yn Niwrnod Maes CFfI Cymru yn Rhuthun.

Bydd yr hysbyseb(ion) buddugol yn derbyn £500 i'w clwb gyda diolch i Boehringer Ingelheim. Ni ellir cyfnewid hyn am wobr arall.

Gallwch gyflwyno'ch hysbyseb yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog. Ni fydd ceisiadau a dderbynnir yn cael eu ffafrio yn ôl dewis iaith.

Bydd hysbysebion digidol yn cael eu beirniadu yn ôl:

- Negeseuon allweddol a thechnegau perswadio;
- Creadigrwydd;
- Y defnydd o dystebau ac ymchwil gwreiddiol.

Mae'r gystadleuaeth hon ar agor i Glybiau Ffermwyr Ifanc YN UNIG. Ni fydd ceisiadau gan grwpiau eraill yn cael eu hystyried.

Os yw cystadleuwyr yn dymuno cyflwyno ffotograff a/neu glip fideo i gymryd rhan yn y gystadleuaeth hysbysebion digidol:

a. mae cystadleuwyr yn gwarantu mai nhw yw'r person yn y ffotograff neu'r fideo a/neu fod ganddynt gydsyniad ymlaen llaw gan bawb yn y ffotograff neu'r fideo i'w gyflwyno fel rhan o'u cyflwyniad;

b. mae cystadleuwyr yn cytuno bod gennym yr hawl i gyhoeddi a chyfleu i'r cyhoedd y ffotograffau mewn unrhyw gyfrwng heb gyfyngiadau ledled y byd, ac nid yn unig at ddibenion y Gystadleuaeth;

Trwy gymryd rhan yn y gystadleuaeth hon, rydych chi'n caniatáu i Gwaredu BVD ddosbarthu'ch gwaith ar-lein a thrwy ganolfannau milfeddygon. Mae hyn yn cynnwys ac nid yw'n gyfyngedig i; sianeli cymdeithasol Gwaredu BVD: Twitter, Facebook ac Instagram, gwefan Gwaredu BVD, sgriniau teledu o fewn canolfannau milfeddygon a gwefannau canolfannau milfeddygon. Nid yw hyn yn gyfyngedig i'r hysbyseb(ion) buddugol.

Mae Gwaredu BVD yn cadw'r hawl i dynnu'r gystadleuaeth hon yn ôl neu ei newid ar unrhyw adeg benodol heb roi rheswm.